Rhifyn Newydd 37

Ieir, Dofednod neu Ffowls? - Neryd Lloyd Mullally

Dyma dri enw ar un math o aderyn fferm. Mae eich dewis o enw yn dibynnu lle yng Nghymru yr ydych yn byw. Yr enw Saesneg yw “poultry”.

Pa enw?

Mae’r Cymry yn galw dofednod ifanc yn gywion, cywennod neu gywion ieir, hynny yw “chickens” - eto yn dibynnu lle’r ydych yn byw. Ond mae pethau’n cymhlethu.

Gwahanol fathau

Heddiw mae yna rhwng 50 a 60 o wahanol fathau pur o ddofednod ym Mhrydain. Mae rhai yn dda i’w bwyta fel cig cinio dydd Sul e.e. yr Indian game, Dorking ac Old English game. Mae mathau eraill yn dda am ddodwy wyau e.e. Ancona, Leghorn ac Andalusian. Mae rhai yn wych at y naill bwrpas sef Marans, Buff Orpington, Plymouth Rock, Rhode Island Red, Sussex a’r Wyandotts. Yn aml mae ffermwyr a magwyr ieir yn croesi'r gwahanol fathau er mwyn cynhyrchu niferoedd uchel o adar ac wyau ar gyfer y farchnad fwyd.

I’W BWYTA

Iâr Indian game | Ceiliog Dorking | Iâr Old English

DODWY WYAU

Iâr Anacona | Ceiliog ac Iâr Leghorn

YN DDA I'W BWYTA AC YN DDA AM DDODWY WYAU

Iâr Buff Orpington Ceiliog Plymouth Rock Iâr Sussex Ceiliog Wyandotts

(Lluniau i gyd o wefan http://www.omlet.co.uk)

Beth sydd na mewn enw?

Mae'r holl fathau gwahanol wedi datblygu o adar coedwig law de ddwyrain Asia. Mae'r adar fel roeddent yn wreiddiol yn dal i fyw yno. Er mai ***Gallus gallus*** *yw eu henw* Lladin daethant i Brydain cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd a chadwyd hwy i'w bwyta ac er mwyn eu hymladd am hwyl! Yn amlwg roedd gan y Celtiaid gysylltiadau pell.

Yr adar gwryw oedd yn cael eu defnyddio i ymladd - y ceiliogod ac weithiau yr oeddynt yn clymu ysbardun metal ar y ddau ysbardun naturiol ar goesau'r ceiliog er mwyn iddynt greu mwy o ddifrod yn ystod yr ymladd. Ambell waith yr oedd arian mawr yn newid dwylo yn ystod yr ymladd. Yr wyf yn cofio gweld talwrn neu pit ymladd ieir o Ddinbych sydd yn awr wedi ei leoli yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn Sain Fagan ger Caerdydd.

Talwrn to gwellt Dinbych yn Sain Fagan
http://myweb.tiscali.co.uk

Talwrn Y Trallwng
Llun John Ball, 1998

Y teulu bach

Enw ar yr aderyn gwryw yw, "y ceiliog" ac "iâr" yw'r enw ar yr aderyn benywaidd. Mae'r ieir yn dodwy wyau. Yr amser naturiol i iâr ddechrau dodwy yw ar ddiwedd y gaeaf fel mae'r dyddiau yn ymestyn ac felly mwy o olau dydd. Mae'r rhan fwyaf o ieir yn dodwy rhwng 108 a 215 o wyau pob blwyddyn. Fel arfer, bydd iâr yn dodwy tua 300 o wyau cyn cael eu lladd am gig. Tua 1940 dechreuodd rhai

ffermwyr fagu dofednod dan do dros y gaeaf . Fe wnaethant sylwi bod ymestyn y dydd trwy ddefnyddio golau trydan yn effeithio ar yr ieir a'u bod yn dodwy mwy o wyau. Fel hyn bu dechrau cynhyrchu ieir batri sydd yn gaeth trwy gydol eu bywyd mewn adeilad pwrpasol. Yma gellir dylanwadu a rheoli golau ddydd, tymheredd, faint a chynnwys y bwyd mae'r ieir yn ei fwyta a'r awyr iach sy'n symud trwy'r siediau anferth. Mae miloedd o ieir yn cael eu cynhyrchu fel hyn a miliynau o wyau. Yng Nghymru, mae niferoedd uchel o ieir yn cael eu cynhyrchu ym Môn. Mae'r carthion yn cael eu casglu yn rheolaidd. Caiff hwn ei ddefnyddio fel gwrtaith ar y tir, ond rhaid iddo gael ei adael am beth amser cyn y gellir gwneud hynny. Gallwch brynu'r carthion ar ffurf 'pellets' i'w roi yn eich gardd lysiau ac mae'n effeithiol iawn - er ei fod yn drewi!!

Wyau ac ati

Mae ieir sydd yn gori, - yn eistedd ar nythaid neu eisteddiad (clutch) o wyau yn eistedd arnynt am 21 o ddyddiau nes iddynt ddeor (hatch). Bydd yr iâr yn troi'r wy bob dydd gyda'i phig yn y nyth er sicrhau nad yw'r cyw sy'n datblygu oddi mewn yn glynu wrth ran o'r plisgyn. Mae'r cywion bach yn pigo eu ffordd allan drwy'r plisgyn wy gyda dant pwrpasol ar ddiwedd eu pig. Gallwch ddarllen mwy am hanesion deori cywion yn erthygl Ian Keith o ysgol San Sior.

Cyw Iâr Light Sussex yn deor
Llun gan www.feathersite.com

Iâr ar ei Nyth
Llun gan Scott Shilala

I ddechrau, mae'r cywion yn edrych braidd yn ddiegni a noeth am fod eu plu yn wlyb. Ond buan y byddant yn dechrau symud, agor eu llygaid a'u manblu (down) yn sychu fel eu bod fel peli bychain bywiog yn rhedeg o gwmpas ar ddwy goes fechan mor denau â matsis.

Tristwch, dysgu cyfrifoldeb a miri

Pan oeddwn yn fechan yr oeddem yn cadw tua ugain o ieir a cheiliog mawr del, - rhai coch o'r enw Rhode Island Red. Y math yma o ieir yw'r rhai mwyaf poblogaidd heddiw. Yr oeddem yn eu cadw allan ar y cae ger y tŷ. Felly ieir buarth (free range) oedd gennym. Un noson ym mis Tachwedd, daeth llwynog (neu gadno fel y dywedodd fy mam) a'u lladd i gyd. Yr oeddwn yn drist dros ben i weld yr holl gyrff bach coch wedi eu gwasgaru ar hyd y cae a'u plu yn chwythu yn y

gwynt. I wneud pethau yn waeth, nid oedd y cnaf wedi mynd a'r un i ffwrdd i'w fwyta. Dywedodd fy nhad y tybiai mai anifail ifanc oedd yn dysgu ei grefft oedd y llwynog yn hytrach nac oedolyn yn hela i fwydo torllwyth (litter) o lwynogod bychain. Yr oeddwn yn hapus iawn felly pan gawsom ni'r plant - y tri ohonom ieir Maran yn anrheg Nadolig.

Ceiliog Rhode Island Red

Iâr Maran

Y Cwt Ieir

(http://www.fotosearch.com/photos-images/poultry.html)

Yn awr yr oedd y tri ohonom yn gofalu amdanynt yn ein tro - eu bwydo, dyfrio, glanhau a gwneud yn sicr eu bod i gyd wedi eu cloi yn eu cwt ieir bob nos. Yr oedd ein hieir Marans yn dodwy wyau del gyda phlisgyn brown. Cawsom hwyl yn blant wrth gystadlu yn Sioe Rhuthun ym mis Awst gyda chwech o wyau ar gefndir o ddail gwyrdd ar blât papur. A dyma fi yn dangos fy oed oherwydd cawsom ddeg swllt neu "chweigian" (50p heddiw) am y safle cyntaf. Bu fy mrawd a minnau yn sefyllian ger yr wyau yn y babell ac yn gwrando ar sgwrs pobol wrth iddynt syllu ar yr wyau. Yr oedd yn anodd peidio chwerthin wrth eu clywed yn dyfalu sut yr oeddem wedi cael chwe wy mor debyg ac o'r un lliw. Credai un gŵr ein bod wedi bod wrthi yn eu lliwio gyda choffi neu ryw fath o golur!

Wyau

Lluniau o wyau

Wyau naturiol lliwgar

Ein hanner dwsin

Lluniau o'r wefan (yn cynnwys gwefan Wikipaedia)

Maint wyau yn Ewrop

Mawr iawn - 73g
Mawr - 63-73g
Canolig - 53-63g
Bach a llai - 53g

Gwaith ymchwil ac ymarferol

1. Trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r we ymchwiliwch sut mae defnyddio deorydd (incubator) fel yn y lluniau isod i ddeor cywion ieir. Gall erthygl Ysgol San Siôr eich cynorthwyo hefyd.

2. Sawl ffordd sydd yna i gadw wyau am amser fel eich bod yn gallu eu bwyta heb fynd yn sâl (mae o leiaf tair ac mae'r Tseiniaid yn gwybod am un, tafarnwyr am y llall ac .... ?

3. Beth yw'r alergedd mwyaf cyffredin? Beth yw'r cyfarwyddyd i riant fel bod yr alergedd yma yn lleihau neu ddiflannu fel y mae baban yn heneiddio a thyfu?

4. Ymchwiliwch i'r gwahanol ddefnydd a wneir o blu. Oes yna wahanol fathau o blu? Defnyddiwch sudd lemon i greu neges gudd neu ysgrifen hudol gyda phluen ac yna ei ddal o flaen gwresogydd i weld y gyfrinach.(Angen gofal yma – cofiwch!!)

5. Pam mae angen i ieir fwyta gro neu blisgyn wy wedi ei falu'n fân? Cliw mae ganddynt lasog (gizzard).

6. Dewiswch un rysáit sydd yn cynnwys wyau a'i goginio i de neu swper gyda chymorth oedolyn. A wyddoch sut mai berwi wy?. Mae'n ffaith bod bwyta wy i frecwast bob bore yn gymorth i golli pwysau (sef 450 o galorïau'r dydd)!

7. Casglwch wahanol fathau o luniau ieir a'u defnyddio i wneud poster unigryw.

8. Ewch ati i "chwythu" ŵy (a defnyddio'r cynnwys i goginio) ac yna addurno'r plisgyn gyda phensiliau lliwgar o gwyr neu baent. Mae'n haws os ydych wedi llunio patrwm ar yr ŵy yn gyntaf gyda phensil.